

Materion Ewrop

(Cynhyrchwyd gan
Swyddfa UE
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru)



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Rhifyn 7 – Medi 2007

Cyflwyniad

Croeso i seithfed rhifyn o'r cylchlythyr, Materion Ewrop. Mae gwaith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi aildechrau yn y Trydydd Cynulliad. Cawsom gyfarfod byr ym mis Gorffennaf, cyn toriad yr haf, pan gefais fy ailethol fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Bydd ychydig o newidiadau yn y ffordd y byddwn yn gweithio yn y Trydydd Cynulliad. Nid yw Prif Weinidog Cymru bellach yn aelod o'r Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Cynulliad Cymru, ond byddwn, fodd bynnag, yn dal i'w wahodd i roi adroddiad am faterion allweddol i'r Pwyllgor. Mae'r aelodaeth wedi newid chydig – cewch y manylion llawn ar wefan y Cynulliad.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn treulio mwy o amser yn ymgymryd â gwaith ymchwilio - yn casglu tystiolaeth ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion Ewropeaidd a rhyngwladol sy'n effeithio ar Gymru. Byddwn yn dechrau drwy ystyried ymchwilio i Fanc Buddsoddi Ewrop yn ystod yr hydref er mwyn archwilio a oes posibilrwydd o gael arian i Gymru. Mae Banc Buddsoddi Ewrop yn cynnig benthyciadau i brosiectau buddsoddi mawr sy'n hybu amcanion polisi'r Undeb Ewropeaidd - mewn meysydd mor amrywiol ag adfywio trefol, ynni adnewyddadwy, rheoli gwastraff ac ysbytai.

Mae'r Aelodau hefyd yn awyddus i wella'u cysylltiadau ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n rhan allweddol o'r broses o wneud penderfyniadau yn Ewrop.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob mis ar fore dydd Mawrth – gan ddechrau ar 25 Medi – gyda slotiau ychwanegol bob bythefnos os bydd angen.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwaith y Pwyllgor, neu am y cylchlythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Sandy Mewies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad.

[Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol](#)

[25 Medi 2007](#)

- ◆ **Ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop** – bydd y Pwyllgor yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o sicrhau cyllid i Gymru gan Fanc Buddsoddi Ewrop.
- ◆ **Y wybodaeth ddiweddaraf am y Comisiwn Ewropeaidd** – bydd Andy Klom, Cynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y datblygiadau yn yr UE ers y cyfarfod diwethaf.
- ◆ **Rhaglen waith yn y dyfodol** – bydd y Pwyllgor yn ystyried y prif faterion Ewropeaidd a rhyngwladol a fydd yn codi er mwyn cytuno ar ei raglen waith.

Eitemau'n ymwneud ag agenda'r UE

[Y Pwyllgor Cynaliadwyedd](#)

- ◆ [Lleihau Gollyngiadau Carbon yng Nghymru](#) - bydd y Pwyllgor yn trafod ac yn cytuno ar ei ymchwiliad craffu i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru ar 20 Medi. Byddant yn casglu tystiolaeth gan randdeiliaid yn ystod eu cyfarfod ar 4 Hydref.

Lincs

[Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

[Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)

[Tudalennau'r Pwyllgor](#)

[Tudalennau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Anna Daniel, Pennaeth Swyddfa (anna.daniel@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rond Point Schuman, 11
B-1040 Bruxelles
Gwlad Belg
0032 2 226 66 92

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Anna Daniel.